

# Crewyr Cadw: Ysbrydoliaeth a chanllaw i hwyluswyr Arts Arwarð

Mae safleoedd diwylliant a threftadaeth yn llefydd gwych i hwyluso gweithgareddau Arts Award gyda phlant a phobl ifanc. Mae Cadw wedi rhoi'r canllaw hwn at ei gilydd i helpu hwyluswyr Arts Award i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyfoethog ar gyfer cyfranogi yn y celfyddydau a'u harchwilio yn safleoedd Cadw.

Mae Cadw wedi creu dau weithgaredd llyfr brasluniau sydd wedi eu cynllunio'n benodol i dywys cyfranogwyr ar hyd taith Darganfod Arts Award Discover ac Ymchwilio Arts Award Archwilio. Mae'r rhain ar gael ar safleoedd Cadw mwy o faint neu gellir lawrlwytho o wefan Cadw a phrintio ymlaen llaw cyn ymweld.

Wrth gynllunio ymweliad â safle treftadaeth i ymgymryd â phrosiect Arts Award, cynlluniwch i gymryd deunydd celf gyda chi. Mae Cadw yn annog pob ffurf ar gelf, ond ceisiwch osgoi defnyddio pennau ffelt a marcwyr y tu fewn i'r adeiladau, neu ganiau chwistrellu mewn unrhyw leoliad treftadaeth neu amgueddfa.

Mae safleoedd treftadaeth yn llefydd naturiol gwych i archwilio amrywiaeth eang o ffurfiau celf. Dyma rai manau cychwyn ar gyfer meddwl am y mathau o ffurfiau celf a allai fod yn gysylltiedig â'r safle:

**Meddylwch am sut gafodd y safle neu'r adeilad (a'r tu fewn iddo) ei gynllunio, ei wneud, ei adeiladu a'i reoli.** Os yw adeilad yn hen, yna bydd y

rhan fwyaf o'r gwaith masnachol wedi cael ei wneud â llaw. Mae'n debygol fod amrywiaeth o grefftwyr medrus iawn wedi cyfrannu at adeiladu safle treftadaeth. Er enghraifft, torwyr meini, seiri maen, seiri coed, gwneuthurwyr gwydr a serameg, penseiri, asiedyddion, gwneuthurwyr dodrefn, gwehyddion, brodweithwyr, clustogweithwyr, tirlunwyr a garddwyr.

**Meddylwch am ba celf a chreffft allai fod wedi digwydd ar y safle drwy gydol ei oes.** Os yw'r safle'n fwy, er enghraifft castell sylweddol, yna byddai amrywiaeth eang o gelf a chreffft wedi digwydd yno. Mae safleoedd cyn hanes fel meini hir o bosibl wedi bod yn fannau o addoli neu ddathlu. Cofiwch annog cyfranogwyr i feddwl am ymarfer artistig menywod a dynion a oedd yn gweithio, addoli, byw a marw yno.

Ymhlith yr enghreifftiau posibl mae: llafarganu, peintio cyrff, gwneud masgiau, adrodd straeon, canu, theatr a pherfformio, ysgrifennu, barddoniaeth, dawnsio, cerddoriaeth, comedi, crochenwaith, creu arfau, gwaith gofaint/ gwaith metel, gwehyddu basgedi, garddio a thyfu bwyd, gosod blodau, gwneud dillad ac eitemau brethyn neu liain fel baneri, arfwisgoedd, arddangosiadau anifeiliaid, tacsidermaeth, gwaith lledr/ gwaith creu cyfrwyon, paratoi bwyd (peth ohono a oedd yn hynod o grand), brodwaith, peintio, gwneud canhwylau, gwneuthurwyr olwynion, bragu, cerflunio, darlunio, caligraffi, gwneud papur ac yn y blaen.

**Meddylwch am ymarfer celf fodern sy'n digwydd ar y safle nawr, neu sydd wedi cael ei ysbrydoli gan y safle.** Bydd hyn yn amrywio'n fawr o'r naill le i'r llall.

Cafodd y canllaw hwn i Arts Award ei ddylunio gan Cadw gyda chefnogaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.

**@cadwcymru**  
**#crewrcadw**  
**cadw.llyw.cymru**

Ymhlith yr enghreifftiau posibl mae: gwyliau, celfyddydau penodol i'r safle, perfformiad, ysgrifennu straeon a'u hadrodd, barddoniaeth, ffilm a theledu, celf a darluniad comics, addysg gelfyddydol, arddangosiadau crefft, dehonglwyr mewn gwsg, curadu, cadwraeth ac adferiad o'r adeilad a'i gasgliadau, crefftau ar werth yn y siop anrhegion, taflenni sydd wedi cael eu dylunio, byrddau dehongli i ymwelwyr, dylunio gardd, dylunio digidol, dylunio gwefan, creu offer dehongli a ffotograffiaeth.

Mae llawer o artistiaid yn cael eu hysbrydoli gan safleoedd hanesyddol a'u hanes, ac yn gwneud dipyn sylweddol o ymchwil fel rhan o'u proses creadigol. Meddylwch am raglenni dogfen, ffilmiau nodwedd, ffuglen wyddonol, llenyddiaeth, dylunio ffasiwn, dawn, dylunio gemau, ffotograffiaeth, celf tir, celf stryd, cerddoriaeth o bob genres, nofelau graffig, gosodiadau celf fodern, celf gymunedol ac yn y blaen.

Am ragor o wybodaeth am Arts Awards gyda Cadw, ewch i'r wefan: [cadw.llyw.cymru/dysgu](http://cadw.llyw.cymru/dysgu)

**Dod o hyd i le i'w ymweld:**  
**[Cadw.llyw.cymru/ymweld](http://Cadw.llyw.cymru/ymweld)**